## Cymanfa Garolau'r Urdd

Bydd Adran ac Aelwyd yr Urdd yn cynnal Cymanfa Garolau ar nos Sul y 1af o Ragfyr am 5.30 yn Shiloh, Llanbedr Pont Steffan, dan arweiniad Enfys Hatcher. Mynediad trwy raglan, am £3, ac fe roddir yr elw at Glefyd y Siwgr a gwaith yr Urdd. Croeso i bawb.

## Gwasanaeth Plygain

Cynhelir gwasanaeth Plygain nos Lun Rhagfyr yr 2il am 7 o'r gloch yng Nghapel y Coleg, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Bydd lluniaeth ysgafn yn dilyn. Croeso cynnes i bawb.

**Julia a James, a Katie gyda'r BMS yn Peru**
Cofiwch i weddïo dros deulu'r Henleys yn Peru am y Nadolig hwn, wrth inni aros i glywed a fyddan nhw'n gallu dod i ymweld â ni yn y gwanwyn.

**Cylch Darllen**
**(Festri Noddfa am 10.30)**

**11 Rhagfyr -** Luc 2, Hannilia'n gwneud y paned
**8 Ionawr -** Joshua 1, Margaret yn gwneud y paned
Croeso i bawb

**Astudiaeth Feiblaidd**
dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan yn y Gilfach, Heol y Gogledd, Llambed am 7 o'r gloch
Maes: Epistolau Ioan

**4 Rhagfyr**: 1 Ioan 2:28 – 3:10
**18 Rhagfyr**: 1 Ioan 3:11-24
Croeso i bawb

**Llongyfarchiadau** ...
i nifer o bobl ifainc y Cylch ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifainc, yn Sir Fôn yn ddiweddar.

## Apêl Cymorth Cristnogol ar gyfer y Philipinau

Diolch i'r eglwysi hynny sydd wedi penderfynu cyfrannu o'r coffrau i'r apêl uchod gan annog eu haelodau hefyd i gyfrannu - mae digon o angen.

**Diwedd y flwyddyn...**
Wrth inni agosáu at ddiwedd y flwyddyn, cofiwn am ein trysoryddion sy'n paratoi nawr i gau'r llyfrau ariannol, ac am y rhai sy'n trefnu fod y capeli a festrioedd yn gynnes ac yn groesawgar: diolch i chi.

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn **16 Ionawr:** Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmann SA48 8EH, 01570 423442, jilltomos@tesco.net

# Deufis

**Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi** **Rhagfyr 2013 a Ionawr 2014**

## Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus.

| | | |
|---|---|---|
| **1 Rhagfyr** | | |
| Aberduar | 10.00 y bore | Cymun |
| Caersalem | 2.00 y prynhawn | Cymun |
| Noddfa | 3.30 y prynhawn | Cymun |
| **8 Rhagfyr** | | |
| Aberduar | 10.00 y bore | Mr Lyndon Lloyd |
| Bethel | 10.15 y bore | Cymun |
| Seion | 1.30 y prynhawn | Cymun |
| Brynhafod | 3.00 y prynhawn | Cymun |
| Noddfa | 5.00 y prynhawn | Dathliad aelodau Noddfa |
| **15 Rhagfyr** | | |
| Aberduar | 10.00 y bore | Oedfa Nadolig y bobl ifainc |
| Noddfa | 3.30 y prynhawn | Oedfa Nadolig yng nghwmni plant a phobl ifainc Noddfa, Caersalem a Bethel |
| **22 Rhagfyr** | | |
| Aberduar | 10.00 y bore | Parchg Wynn Vittle |
| Bethel | 10.15 y bore | Oedfa Nadolig yr aelodau |
| Brynhafod | 4.00 y prynhawn | Oedfa Nadolig yr aelodau a phaned yn y festri i ddilyn |

**drosodd/...**

**Trefn y Suliau (parhad)**

**Dydd Nadolig**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 9.00 y bore | |
| Noddfa | 10.00 y bore | |

**29 Rhagfyr**

| | | |
|---|---|---|
| Noddfa | 10.00 y bore | Oedfa unedig i Noddfa Caersalem a Bethel dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan |

**5 Ionawr**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Cymun |
| Caersalem | 2.00 y prynhawn | Cymun |
| Noddfa | 3.30 y prynhawn | Cymun |

**12 Ionawr**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Mrs Delyth Morgans Phillips |
| Bethel | 10.15 y bore | Cymun |
| Seion | 1.30 y prynhawn | Cymun |
| Brynhafod | 3.00 y prynhawn | Cymun |

**19 Ionawr**

| | | |
|---|---|---|
| Noddfa | 9.30 y bore | |
| Aberduar | 11.00 y bore | |
| Caersalem | 2.00 y prynhawn | |

**26 Ionawr**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Ms Beth Davies |
| Bethel | 10.15 y bore | |
| Brynhafod | 11.30 y bore | |
| Seion | 3.00 y prynhawn | |

*Rhaghysbys:* ***2 Chwefror***

| | | |
|---|---|---|
| *Aberduar* | *10.00 y bore* | *Cymun* |
| *Caersalem* | *2.00 y prynhawn* | *Cymun* |
| *Noddfa* | *3.30 y prynhawn* | *Cymun* |

I gael 'Deufis' ar ffurf pdf ar e-bost, anfonwch air ataf i 'jilltomos@tesco.net'.

# Nadolig Llawen i bawb o ddarllenwyr Deufis



Cofiwch am yr oedfaon arbennig ar gyfer y Nadolig:

… ar Suliau 15ed a 22ain Rhagfyr

… a'r oedfaon teuluol unedig, byr, ar fore'r Nadolig, am 9 yn Aberduar ac am 10 yn Noddfa.

Croeso arbennig i rai sydd adre am yr Ŵyl i'r oedfaon hyn, a siwrne saff i chi sy'n teithio i ffwrdd. Gweddïwn am fendith Duw dros y cyfan, paratoadau ac oedfaon, ac amser i oedi i ryfeddu.